# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd CYFARFOD BLYNYDDOLCyngor Cymuned Llanwinio ar Nos wener yr 17eg O fai am 8.00yh yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.

PRESENOL: Cynghorwyr D Lewis (Cadeirydd), W Evans, G Evans, I Saer, S Pask, C Smoothy, J Lewis (CSC) R Gallie (clerc ar adael)

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd H James

COFNODION: Darllennwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol blaenorol o'r 18eg o Fai 2022 ac fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.

MATERION YN CODI: Dim

ADRODDIAD ARIANNOL:

Trafododd y Cynghorwyr yr adroddiad blynyddol.

| | |
|---|---|
| Cyfrif y Trysorydd | £17,183.99 |
| Cyfrif Cyfredol | £26,913.87 |

Derbyniodd y Cynghorwyr yr adroddiad blynyddol am y flwyddyn yn gorffen yr 31ain o Fawrth 2023.

ETHOL CADEIRYDD:

Etholwyd y Cynghorydd I Saer fel Cadeirydd.

ETHOL IS-GADEIRYDD:

Etholwyd y Cynghorydd C Smoothy fel Is-Gadeirydd.

ETHOL PWYLLGORAU NEWYDD:

Etholwyd y Cadeirydd ac yr Is-Gadeirydd i eistedd ar y Pwyllgor Hawliau Tramwy.

Etholwyd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac yr holl gynghorwyr eistedd ar y Pwyllgor Asedau.

Mi'r oedd Y Rheolau Sefodlog ac y Rheoliadau Ariannol perthnasol mewn lle.

Nid oedd unrhyw asedau newydd wedi ei prynnu.

Ystyriwyd fod y symiau yswiriant yn ddigonol ond gofynwyd i'r clerc wirio pa offer.

Roedd aelodaeth y Cyngor o gyrff eraill yn gyfoes.

Nid oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i drefn cwyn y Cyngor.

Mi'r oedd trefn y Cyngor i ddelio gyda ceisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac y Rheoliad Diogelu Data Cyffrediniol 2018 yn ddilys.

CYFLOG Y CLERC:

Cytunodd y buasau cyflog y clerc newydd, wedi ei recriwtio, yn £2420 y flwyddyn.

ASESIAD RISG:

Adolygwyd yr Asesiad Risg gan y Cynghor ac fe'i dderbyniwyd.